

Ystadegau Medr

Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2023/24

Cyfeirnod: Sta/Medr/09/2025
Dyddiad: 15 Ebrill 2025
Dynodiad: Ystadegau Swyddogol (gweler [newid yn y statws ystadegau achrededig](#))
E-bost: YstadegauAU@medr.cymru

Crynodeb: Ystadegau ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn darparwyr AU yn y DU a myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr AU yng Nghymru.

Thema: Addysg Uwch

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)



Cofrestriadau yn Narparwyr Addysg Uwch (DAUwyr) Cymru

- Roedd 150,680 o gofrestriadau yn DAUwyr Cymru yn 2023/24, 2% yn llai na'r 154,385 yn 2022/23.
- Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau ar lefel israddedig lai nag 1%; o 111,745 yn 2022/23 i 111,320 yn 2023/24.
- Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau ar lefel ôl-radd 8%; o 42,640 yn 2022/23 i 39,360 yn 2023/24.
- Roedd 35% o fyfyrwyr ôl-radd yn astudio'n rhan-amser, o'i gymharu â 25% o israddedigion.
- Y grŵp pynciau mwyaf poblogaeth yn DAUwyr Cymru ar lefel israddedig ac ôl-radd yn 2023/24 oedd Busnes a rheoli.

Demograffeg

- Roedd 57% o gofrestriadau yn 2023/24 yn rhai gan fyfyrwyr benywaidd, yr un gyfran ag yn 2022/23.
- Roedd 20% o gofrestriadau yn 2023/24 yn rhai gan fyfyrwyr ag anabledd hysbys. Roedd hyn yn gynydd o'i gymharu ag 17% yn y flwyddyn flaenorol.
- O'r myfyrwyr o'r DU y mae eu hethnigrwydd yn hysbys, roedd 16% o gofrestriadau yn 2023/24 yn rhai gan fyfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol. Mae hyn yn gynydd o'i gymharu ag 14% yn 2022/23.
- Roedd 46% o gofrestriadau yn DAUwyr Cymru yn 2023/24 yn rhai gan fyfyrwyr yr oedd eu cyfeiriad parhaol ar adeg mynediad i'w cwrs yn gyfeiriad yng Nghymru. Roedd 35% arall o weddill y DU, 1% o'r UE ac roedd 17% o wledydd eraill.

Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a oedd wedi'u cofrestru yn Narparwyr Addysg Uwch (DAUwyr) y DU

- Roedd 103,185 o gofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn Narparwyr Addysg Uwch (DAUwyr) y DU yn 2023/24, 5% yn llai nag yn 2022/23.
- Roedd 83,350 o'r cofrestriadau hyn ar lefel israddedig yn 2023/24, 3% yn llai nag yn 2022/23. Roedd 32% o fyfyrwyr israddedig yn astudio'n rhan-amser.
- Roedd 19,840 o'r cofrestriadau hyn ar lefel ôl-radd yn 2023/24, 10% yn llai nag yn 2022/23. Roedd 61% o fyfyrwyr ôl-radd yn astudio'n rhan-amser.

Demograffeg

- Roedd 62% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n fyfyrwyr benywaidd, yr un gyfran ag yn 2022/23.
- Roedd gan 23% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru anabledd hysbys yn 2023/24, sy'n gynydd o'i gymharu â 21% yn 2022/23.

- O'r myfyrwyr y mae eu hethnigrwydd yn hysbys, roedd 11% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn 2023/24 o gefndir ethnig leiafrifol, sy'n gynnydd o'i gymharu â 10% yn 2022/23.
- Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau israddedig amser llawn o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru (Cwintel 1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019) 6%, o 9,940 o gofrestriadau yn 2022/23 i 9,385 o gofrestriadau yn 2023/24.
- Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau israddedig amser llawn o'r ardaloedd lleiaf amddifadus yng Nghymru (Cwintel 5 MALIC 2019) 2% (o 15,195 o gofrestriadau yn 2022/23 i 14,855 o gofrestriadau yn 2023/24).

Lifoedd myfyrwyr amser llawn dros y ffin yn 2023/24

- Mae Cymru'n fewnfudwr net myfyrwyr amser llawn o weddill y DU.
- Roedd 45,045 o fyfyrwyr amser llawn o wledydd eraill y DU yn DAUwyr Cymru, o'i gymharu â 27,785 o fyfyrwyr amser llawn o Gymru'n astudio mewn DAUwyr yng ngweddill y DU.
- Roedd 44% o israddedigion amser llawn o Gymru'n astudio mewn gwledydd eraill yn y DU. Roedd 38% o fyfyrwyr ôl-radd amser llawn o Gymru'n astudio mewn gwledydd eraill yn y DU.

Cymwysterau a ddyfarnwyd

- Fe ostyngodd nifer y cymwysterau a ddyfarnwyd i fyfyrwyr o Gymru 3%; o 30,315 yn 2022/23 i 29,490 yn 2023/24.
- Fe gynyddodd nifer y cymwysterau a ddyfarnwyd gan DAUwyr yng Nghymru 8%; o 46,465 yn 2022/23 i 50,130 yn 2023/24.
- Fe ostyngodd cyfran y myfyrwyr cymwysedig gradd gyntaf mewn DAUwyr yng Nghymru a enillodd gymwysterau anrhydedd dosbarth cyntaf o 30% yn 2022/23 i 28% yn 2023/24 (heb gynnwys y rhai â graddau annosbarthedig).

Rhagor o wybodaeth

Ceir ystadegau manylach ar wefan [Data Agored](#) yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Mae'r data ar gyfer myfyrwyr a oedd wedi eu cofrestru mewn darparwyr yng Nghymru i'w gael ar [StatsCymru](#) hefyd.

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen Ansawdd a methodoleg sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn am wybodaeth fanwl gan gynnwys diffiniadau.

Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn [Natganiad Cydymffurfio](#) Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â [Datganiad Cydymffurfio](#) Medr a'n [polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau](#).

Ansawdd

Daw'r data o gofnod Myfyrwyr HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu penodol. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gyflawnir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i niferoedd y bobl o Gymru sy'n astudio mewn darparwyr AU ledled y DU ac i niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio yn narparwyr AU Cymru.

Mae hyn yn darparu mynediad rhwydd at ddata o gofnod myfyrwyr HESA sy'n benodol i Gymru, ac mae hefyd yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg.

Newid yn y statws ystadegau achrededig

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â'r systemau a phrosesau ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a arferai gynhyrchu ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd OSR yn asesu'r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

Ystadegau cysylltiedig

Cafodd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon eu cyhoeddi ar [llyw.cymru](#).

Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ragor o ddata trwy'r e-bost i:
YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government